



Sicrhau arfer meddygol da:

arweiniad i fyfyrwyr meddygol



msc Medical
Schools
Council

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

Dyletswyddau meddyg sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

Rhaid bod modd i gleifion ymddiried eu bywydau a'u hiechyd gyda meddygon. Er mwyn cyfiawnhau'r ymddiriedaeth honno, rhaid i chi ddangos parch tuag at fywyd dynol a sicrhau bod eich arfer yn bodloni'r safonau a ddisgwylir gennych mewn pedwar maes.

Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

- Sicrhau eich bod yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal eich claf.
- Darparu gofal a gwaith meddyg o safon da.
 - Sicrhau eich bod yn diweddarau eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol.
 - Cydnabod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysedd.

Diogelwch ac ansawdd

- Gweithredu yn ddi-oed os oes gennych reswm da dros gredu y gallech chi neu gydweithiwr fod yn rhoi cleifion mewn perygl.
- Diogelu a hyrwyddo iechyd cleifion a'r cyhoedd.

Cyfathrebu, partneriaeth a gwaith tîm

- Trin cleifion fel unigolion a pharchu eu hurddas.
 - Trin cleifion mewn ffordd gwrtais ac ystyrlon.
 - Parchu hawl cleifion i gyfrinachedd.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda chleifion.
 - Gwrando ar gleifion ac ymateb i'w pryderon a'u dewisiadau.
 - Rhoi'r wybodaeth y maent yn ei dymuno neu'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chael i gleifion, mewn ffordd y gallant ei deall.
 - Parchu hawl cleifion i wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal gyda chi.
 - Cynorthwyo cleifion i ofalu am eu hunain er mwyn gwella a chynnal eu hiechyd.
- Gweithio gyda chydweithwyr mewn ffyrdd sy'n diwallu buddiannau cleifion orau.

Cynnal ymddiriedaeth

- Bod yn onest a gweithredu mewn ffordd ddi-dwyll.
- Ni ddylech fyth wahaniaethu yn erbyn cleifion neu gydweithwyr mewn ffordd annheg.

-
- Ni ddylech fyth gymryd mantais ar hyder eich cleifion ynddoch neu ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn.

Rydych yn atebol yn bersonol am eich gwaith proffesiynol fel meddyg ac mae'n rhaid i chi fod yn barod i gyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd bob amser.

Sicrhau arfer meddygol da: arweiniad i fyfyrwyr meddygol

Am yr arweiniad hwn

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) a'r Cyngor Ysgolion Meddygol (CYM) wedi cyhoeddi'r arweiniad hwn i fyfyrwyr meddygol er mwyn amlinellu'r safonau a ddisgwyilir ganddynt – yn yr ysgol feddygol a thu allan i'r ysgol feddygol.

Mae'r arweiniad hwn yn dangos sut y mae egwyddorion a gwerthoedd arweiniad craidd CMC i feddygon, Arfer meddygol da, yn berthnasol i chi fel myfyriwr. Bydd deall sut y mae'r arweiniad craidd i feddygon yn berthnasol nawr ac yn ystod eich gyrfya yn eich helpu i fod yn fyfyriwr da ac yn y dyfodol, bydd yn eich helpu i fod yn feddyg da.

Cyhoeddwyd 27 Mai 2016.

Bydd yn dod i rym ar 1 Medi 2016.

Gallwch weld y fersiwn diweddaraf o'n harweiniad trwy droi at ein gwefan, sef www.gmc-uk.org/agmp

Cynnwys

	Tudalen
Beth mae'r arweiniad hwn yn ei gynnwys?	4
Cynnal ymddygiad proffesiynol o safon uchel	4
Am <i>Arfer meddygol da</i>	5
Defnyddio'r arweiniad hwn	6
Parth 1: Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad	8
Datblygu a chynnal eich perfformiad proffesiynol	8
Defnyddio gwybodaeth a phrofiad yn eich gwaith	11
Cofnodi'ch gwaith mewn ffordd glir, manwl a darllenadwy	16
Parth 2: Diogelwch ac ansawdd	18
Cyfrannu at a chydymffurfio â systemau er mwyn diogelu cleifion	18
Ymateb i risgiau i ddiogelwch	19
Sut i fynegi pryder am ddiogelwch claf	20
Diogelu cleifion a chydweithwyr rhag unrhyw risg a achosir g an eich iechyd	24
Parth 3: Cyfathrebu, partneriaeth a gwaith tîm	29
Cyfathrebu mewn ffordd effeithiol	29
Cydweithio gyda chydweithwyr er mwyn cynnal neu wella gofal cleifion	30
Addysgu, hyfforddi, cynorthwyo ac asesu	31
Parhad gofal a chydlynu gofal	32
Sefydlu a chynnal partneriaethau gyda chleifion	32
Cynnal cyfrinachedd cleifion	33
Gwneud gwrthwynebiad cydwybodol	38

Tudalen

Parth 4: Cynnal ymddiriedaeth	39
Dangos parch at gleifion	39
Trin cleifion a chydweithwyr mewn ffordd deg a heb wahaniaethu yn eu herbyn	40
Gweithredu mewn ffordd onest a chywir	42
Bod yn agored ac achosion cyfreithiol neu ddisgyblu	44
Proffesiynoldeb – meysydd allweddol sy'n peri pryder	47
Agwedd neu ymddygiad amhriodol parhaus	47
Methu dangos arfer meddygol da	48
Camddefnyddio cyffuriau neu alcohol	49
Twyll neu lèn-ladrad	49
Anonstrwydd neu dwyll, gan gynnwys anonestrwydd y tu allan i'r rôl proffesiynol	50
Ymddygiad ymosodol, treisgar neu fygythiol	51
Unrhyw rybudd neu gollfarn	52
Pryderon iechyd a rheolaeth neu ddirnadaeth o'r pryderon hyn	53
Atodiad: Proffesiynoldeb a phrosesau addasrwydd i wneud gwaith meddygol mewn ysgolion meddygol a phrifysgolion	54
Monitro mân bryderon	55
Ymchwiliad ffurfiol ynghylch addasrwydd i wneud gwaith meddygol	56
Beth yw panel neu bwyllgor addasrwydd i wneud gwaith meddygol?	56
Pa gymorth y byddaf yn ei gael yn ystod ymchwiliad addasrwydd i wneud gwaith meddygol?	57

Beth mae'r arweiniad hwn yn ei gynnwys?

Cynnal ymddygiad proffesiynol o safon uchel

Yn ystod eich astudiaethau, byddwch yn cael cyswllt â chleifion ac aelodau'r cyhoedd, a gallai'r rhain fod yn agored i niwed mewn ffordd gorfforol ac emosïynol. Oherwydd hyn, ac oherwydd y ffaith y byddwch yn ymuno â phroffesiwn y mae pobl yn ymddiried ynddo, disgwylwch i chi ddeall bod gwahaniaeth yn safon yr ymddygiad a ddisgwylir gan fyfyrwyr ar gyrsiau sy'n golygu y byddant yn cael cyswllt â chleifion a'r cyhoedd.

Yn benodol, rhaid i'ch ymddygiad yn yr amgylchedd clinigol a thu allan i'ch astudiaethau, gyfiawnhau hyder cleifion a'r cyhoedd ynoch chi fel aelod o'r proffesiwn meddygol yn y dyfodol bob amser. Byddwn ni a'ch ysgol feddygol yn eich cynorthwyo ar eich taith o fod yn fyfyrwr i fod yn feddyg, sy'n cynnwys addysgu ac asesu ynghylch proffesiynoldeb.

Fel graddedig meddygol, bydd angen i chi gofrestru â CMC a chael trwydded i wneud gwaith meddygol cyn y bydd modd i chi ddechrau gweithio fel meddyg os ydych yn dymuno gweithio yn y DU. Ni fydd CMC yn cofrestru graddedigion meddygol nad ydynt yn addas i wneud gwaith meddygol.

Yn ychwanegol i'r arweiniad hwn, rydym wedi paratoi arweiniad i ysgolion meddygol ac i fyfyrwyr meddygol ynghylch rheoli pryderon ynghylch proffesiynoldeb ac addasrwydd i wneud gwaith meddygol hefyd. Mae'n amlinellu'r prosesau y dylai ysgolion meddygol eu dilyn os byddant yn pryderu am broffesiynoldeb myfyrwr neu eu haddasrwydd i wneud gwaith meddygol.

Amlinellir y mathau o ymddygiad sy'n peri pryder ac y gallent arwain at ddefnyddio prosesau ffurfiol yn adran *Proffesiynoldeb – meysydd allweddol sy'n peri pryder yn yr arweiniad hwn* (gweler tudalennau 47–53).

Am Arfer meddygol da

Mae *Arfer meddygol da* yn disgrifio'r hyn a ddisgwylir gan bob meddyg sydd wedi cofrestru gyda CMC. Mae meddygon yn gyfrifol am fod yn gyfarwydd ag *Arfer meddygol da* a'r arweiniad esboniadol sy'n ei gynnal, gan ddilyn yr arweiniad sydd ynddynt.

Rhaid i feddygon ddefnyddio'u barn wrth weithredu'r egwyddorion yn ystod y sefyllfaoedd amrywiol y byddant yn eu hwynebu fel meddyg – os ydynt yn meddu ar drwydded i wneud gwaith meddygol neu beidio, waeth pa faes meddygol y maent yn gweithio ynddo, ac os ydynt yn gweld cleifion yn rheolaidd neu beidio. Rhaid bod meddygon yn barod i esbonio a chyfiawnhau eu penderfyniadau a'u gweithredoedd.

Defnyddio'r arweiniad hwn

Mae angen meddygon da ar gleifion – mae'r hyfforddiant er mwyn bod yn feddyg da yn cychwyn yn yr ysgol feddygol. Yn ystod eich astudiaethau, byddwch yn dysgu am bwysigrwydd proffesiynoldeb a'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodir yn arweiniad craidd CMC ar gyfer meddygon, *Arfer meddygol da*, a'r arweiniad esboniadol sy'n ei gynnal.

Yn yr arweiniad hwn, mae CMC a CYM (y cyfeirir atynt fel 'ni' trwy gydol yr arweiniad) yn dangos sut y mae'r egwyddorion a'r gwerthoedd yn Arfer meddygol da yn berthnasol i chi fel myfyriwr meddygol, er mwyn helpu i'ch paratoi ar gyfer eich rôl yn y dyfodol fel meddyg. Mae llawer o'r arweiniad hwn yn berthnasol i'ch gwaith ar leoliadau clinigol yn benodol. Ond mae proffesiynoldeb yn ehangach na hyn, ac mae'n cynnwys holl elfennau'ch astudiaethau academiaidd, yn ogystal â'r angen i fod yn ddibynadwy ac yn onest.

Yn yr arweiniad hwn, defnyddir y termau 'rhaid i chi' a 'dylech' yn y ffyrdd canlynol.

- 'Defnyddir 'Rhaid i chi' er mwyn amlygu meysydd pwysig y mae ganddynt gyswllt cryf ag *Arfer meddygol da*.
- Defnyddir 'Dylech' pan fyddwn yn rhoi esboniad o'r ffordd o fodloni gofynion, a phan geir eithriadau i'r ffordd y gallai'r egwyddor fod yn berthnasol.

Trwy gydol yr arweiniad hwn, rydym yn cynnig mwy o fanylion a chyngor defnyddiol hefyd am y ffordd y mae modd i chi fodloni'r gofynion a nodir gennym. Bydd modd i chi weld y rhain yn y blychau tesun, a amlinellir yn wyrdd.

Mynd y tu hwnt i'r galw – ymgymryd â her rhagoriaeth broffesiynol

Mae'r arweiniad hwn yn esbonio'r safonau o ran ymddygiad proffesiynol a ddisgwylir gennych yn ystod eich astudiaethau. Mae gwir broffesiynoldeb yn ymwneud ag ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth – er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i chi ddysgu:

- datblygu ffyrdd iach o ymdopi â straen a sialensiau (cydnerthedd)
- delio ag amheuaeth ac ansicrwydd
- defnyddio rhesymu moesegol a moesol yn eich gwaith
- gweithio mewn ffordd effeithiol mewn tîm, gan gynnwys y gallu i roi adborth adeiladol a gonest
- rheoli'ch dysgu a'ch datblygiad eich hun
- ymateb i adborth

- blaenoriaethu'ch amser yn dda a sicrhau cydbwysedd da rhwng eich gwaith a'ch bywyd
- hyrwyddo diogelwch cleifion a'ch bod yn gallu mynegi pryderon pan fo hynny'n briodol
- cydweithio â chleifion a gweithwyr proffesiynol eraill
- delio â thuedd bersonol a'i lleddfu gymaint ag y bo modd.

Efallai y bydd hi'n anodd neu'n heriol i chi gyflawni rhai o'r rhain yn dda, ond yn yr un modd â holl elfennau proffesiynoldeb, bydd eich ysgol feddygol yn eich helpu i ddatblygu'r sgiliau hyn. Mae bod yn broffesiynol yn golygu y bydd modd i chi neilltuo amser i fyfyrion am eich profiadau, i ddysgu'n barhaus ac i ddefnyddio'r hyn a ddysgoch mewn sefyllfaoedd go iawn.

Bydd angen i chi geisio adborth, sicrhau'ch bod yn ymwybodol o'r arweiniad proffesiynol a moesegol diweddaraf ac mae'n rhaid bod modd i chi addasu i amgylchiadau sy'n newid. Mae'ch athrawon a'ch hyfforddwyr yn dymuno i chi ddatblygu ac i fod yn feddyg rhagorol, felly dylech droi atynt am arweiniad a chymorth.

Parth 1: Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

Datblygu a chynnal eich perfformiad proffesiynol

- 1** Fel meddyg cofrestredig, bydd disgwyl i chi ddiweddarau'ch sgiliau a'ch gwybodaeth er mwyn i chi allu rhoi gofal o'r safon uchaf i'ch cleifion.
- 2** Rhaid bod meddygon cofrestredig yn gyfarwydd â'r holl gyfreithiau a'r rheoliadau sy'n berthnasol i'w gwaith, yn ogystal ag unrhyw arweiniad y mae CMC yn ei gyhoeddi, a'u dilyn. Bydd hyn yn diogelu cleifion trwy sicrhau eu bod yn cael triniaeth ddiogel a chyfreithlon, a bydd yn helpu meddygon i ddarparu'r gofal gorau ag y bo modd.
- 3** Fel myfyriwr meddygol, byddwch yn dysgu'r sgiliau a'r wybodaeth sylfaenol y bydd ei hangen arnoch er mwyn trin cleifion, ond hefyd, rydych yn datblygu eich gallu i ddysgu a chaffael sgiliau yn y dyfodol. Wrth i chi symud trwy'r ysgol feddygol ac ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-raddedig, byddwch yn parhau i ddatblygu'r hyn yr ydych chi wedi'i ddysgu. I chi, mae'r agwedd hon ar arfer meddygol da yn ymwneud â chyfranogi'n llawn yn y broses ddysgu hon.

4 Rhaid i chi:

- ymgysylltu'n llawn â'ch cwrs meddygol trwy fynychu gweithgareddau addysgol, gan gynnwys darlithoedd, seminarau a lleoliadau, a thrwy gwblhau gwaith cwrs
- gwranddo ar gyngor eich darlithwyr a'ch hyfforddwyr
- cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau a gyda systemau neu strwythurau eraill a ddarparir gan eich ysgol feddygol neu'ch prifysgol mewn perthynas â'ch astudiaethau
- ymateb mewn ffordd adeiladol i adborth llafar ac ysgrifenedig gan gleifion, darlithwyr, clinigwyr ac aelodau'r tîm amlddisgyblaethol trwy fyfyrion mewn ffordd feirniadol am yr adborth a llunio cynllun gweithredu er mwyn sicrhau gwelliant yn ôl yr angen
- myfyrion am yr hyn yr ydych chi wedi'i ddysgu, ac ystyried ffyrdd o wella'ch perfformiad.

Beth yw myfyrio?

Byddwch yn clywed am gysyniad arfer myfyriol trwy gydol eich cyfnod yn yr ysgol feddygol.

Wrth ei wraidd, mae myfyrio yn golygu meddwl am yr hyn a wnaethoch, yr hyn a wnaethoch yn dda a'r hyn y byddai modd i chi ei wneud yn well y tro nesaf. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i chi ystyried effaith eich gweithredoedd arnoch chi ac ar eraill, gan gynnwys cleifion a chydweithwyr, ar draws yr holl agweddau ar eich addysg a'ch hyfforddiant.

Er enghraifft, os byddwch yn cael cyswllt â chlaf neu gydweithiwr ac os na fydd yn mynd fel y disgwyl, dylech ystyried sut y gwnaethoch chi ddelio â'r sefyllfa mewn golau beirniadol, er mwyn gweld a oes modd i chi ddysgu o'r hyn a ddigwyddodd a defnyddio'r dysgu hwnnw i wella'r ffordd y byddwch yn delio â sefyllfaoedd tebyg yn y dyfodol.

Mae myfyrio yn golygu ymateb mewn ffordd adeiladol i adborth gan eich athrawon, eich hyfforddwyr a'ch cydweithwyr hefyd. Meddyliwch am yr hyn y dywedwyd wrthyh y gallwch ei wella, a cheisiwch wneud y gwelliannau hynny. Dyma'r ffordd y bydd myfyrwyr meddygol a meddygon cofrestredig yn dysgu ac yn gwella.

Gweler ein harweiniad i fyfyrwyr ynghylch bod yn ymarferwr myfyriol, lle'r ydym yn defnyddio safbwyntiau myfyrwyr meddygol, meddygon ac addysgwyr meddygol er mwyn esbonio pam bod myfyrio yn bwysig ac er mwyn dangos i chi sut y gallwch ei ddefnyddio yn eich bywyd dyddiol fel myfyriwr a thu hwnt – *Gellir gweld Yr ymarferwr myfyriol – canllaw i fyfyrwyr meddygol* trwy droi at www.gmc-uk.org/reflectivepractitioner.

- 5 Fel myfyriwr meddygol, byddwch yn dysgu am gyfreithiau ac arweiniad proffesiynol perthnasol, ac mae'n bwysig eich bod yn defnyddio'r hyn a ddysgoch yn ystod eich cyfnod ar leoliad clinigol. Ar leoliad clinigol, chi sy'n gyfrifol am wybod am y polisiau a'r gweithdrefnau hyn, ac am ddarganfod amdanynt mewn ffordd ragweithiol, a'u gweithredu yn eich gwaith. Mae hyn yn cynnwys dilyn yr arweiniad a'r cyfreithiau perthnasol pan fyddwch ar leoliad mewn gwlad dramor neu ar gyfnod dewisol.

Defnyddio gwybodaeth a phrofiad yn eich gwaith

- 6 Rhaid i feddygon cofrestredig gydnabod a gweithio o fewn terfynau eu cymhwystra.
- 7 Fel myfyriwr meddygol, mae hyn yn berthnasol i chi mewn perthynas â'r amser y byddwch yn ei dreulio gyda chleifion ar leoliad clinigol. Mae'n golygu hefyd na ddylech drin cleifion na rhoi cyngor meddygol iddynt oni bai eich bod dan oruchwyliaeth ymarferwr gofal iechyd cofrestredig. Ni ddylech gyflawni gweithdrefnau ar ffrindiau neu'ch teulu. Rhaid i chi:
- gydnabod terfynau'ch cymhwystra a gofyn am help yn ôl yr angen
 - sicrhau'ch bod yn esbonio lefel eich cymhwystra mewn ffordd glir i unrhyw un sy'n eich goruchwyllo ar leoliad, fel nas gofynnir i chi wneud unrhyw beth nad ydych chi wedi cael eich hyfforddi i'w wneud
 - sicrhau bod cleifion, gofalgwyr a chydweithwyr yn ymwybodol o'r ffaith mai myfyriwr meddygol ydych chi, nid meddyg cofrestredig

- gweithredu os nad ydych o'r farn eich bod yn cael eich goruchwylio mewn ffordd effeithiol ar leoliad clinigol (gweler paragraff 9)
- ymgysylltu â systemau gwerthuso rheolaidd a ddarparir gan eich ysgol feddygol neu'ch prifysgol (er enghraifft, holiaduron diwedd lleoliad neu bwyllgorau cyswllt staff a myfyrwyr) mewn ffordd amserol.

Ymddwyn mewn ffordd broffesiynol ar leoliadau – camau ymarferol

- Dylech gyflwyno'ch hun i gleifion bob amser, gan ddweud eich enw wrthynt a nodi eich bod yn fyfyrwr meddygol.
- Pan fyddwch yn cyfarfod claf am y tro cyntaf, gofynnwch a ydynt yn gwrthwynebu cael myfyrwr yn bresennol.
- Os yw'ch ysgol feddygol neu ddarparwr eich lleoliad wedi rhoi bathodyn Adnabod neu rywbeth tebyg i chi, gwnewch yn siŵr ei fod yn weladwy bob amser.
- Gwisgwch yn drwsiadus ac yn unol â chodau gwisgo a bennir gan eich ysgol feddygol neu ddarparwr eich lleoliad.
- Dylech gyrraedd eich lleoliad yn brydlon ac ni ddylech adael eich lleoliad yn gynnar, oni bai eich bod wedi cytuno ar hyn gyda goruchwylydd perthnasol.
- Dylech fynychu unrhyw sesiynau ymsefydlu os cynigir y rhain i chi.
- Dylech fynychu'r holl hyfforddiant gorfodol a drefnwyd ar eich cyfer yn ystod eich cyfnod ar leoliad.

- Sicrhewch eich bod yn gwybod am y rheolau a'r arweiniad sy'n benodol i'ch lleoliad chi, gan gynnwys sut y dylech fynegi unrhyw bryderon, a sicrhewch eich bod yn eu dilyn. Os bydd gennych chi unrhyw amheuaeth, sicrhewch eich bod yn gofyn a oes unrhyw beth yn arbennig y dylech chi fod yn cael gwybod amdano ar ddechrau'ch lleoliad.
- Byddwch yn onest gyda chleifion os nad ydych yn gwybod yr ateb i'w cwestiynau. Mae cleifion yn gwerthfawrogi'r ffaith eich bod chi yno i ddsygu.
- Sicrhewch eich bod yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am eich goruchwyllo chi ar eich lleoliad yn uniongyrchol, a phwy sy'n meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol dros fyfyrwyr meddygol yn y man lle'r ydych yn gweithio. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall ble i fynd os bydd angen help arnoch ac os bydd gennych chi unrhyw bryderon y bydd angen i chi eu codi.
- Yn ystod unrhyw gyfnod dewisol, yn y DU neu mewn gwlad dramor, dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith y dylai myfyrwyr ddilyn y cyngor a roddir yn yr arweiniad hwn o hyd, pryd bynnag y bo modd.

- 8** Os nad ydych yn siŵr a ydych chi'n gallu cyflawni gweithdrefn mewn ffordd gymwys, dylech ofyn am help gan gydweithiwr mwy profiadol, megis nyrs neu feddyg cymwys. Dim ond os ydych chi wedi cael hyfforddiant i wneud hynny y dylech chi geisio cyflawni gweithdrefnau ymarferol, a dim ond dan oruchwyliaeth sy'n briodol i lefel eich cymhwysedd.

- 9** Os ydych o'r farn nad ydych yn cael eich goruchwyllo mewn ffordd gywir ar leoliad, dylech stopio'r gwaith yr ydych chi'n ei wneud a mynegi'ch pryderon i ddarparwr y lleoliad a'ch ysgol feddygol. Ni fydd hyn yn effeithio ar eich astudiaethau a bydd yn dangos eich bod yn fyfyrwr cyfrifol sy'n gweithredu mewn ffordd broffesiynol. Yn ogystal, disgwylwch i chi gymryd camau yn ddi-oed os bydd gennych chi unrhyw bryderon am risgiau posibl i gleifion, fel y nodir ym mharagraffau 20-28.
- 10** Yn ystod eich cyfnod mewn ysgol feddygol, byddwch yn dysgu sut i wneud penderfyniadau clinigol da a sut i deimlo'n fodlon bod claf wedi rhoi eu caniatâd. Byddwch yn dysgu bod y broses ganiatâd yn ymwneud â meddyg a chlaf yn rhannu'r broses o wneud penderfyniadau, lle y mae'r meddyg yn defnyddio'u gwybodaeth a'u profiad arbenigol er mwyn helpu'r claf i ystyried eu dewisiadau a gwneud penderfyniad gwybodus.*
- 11** Tuag at ddiwedd eich astudiaethau, efallai y byddwch yn gyfrifol, dan oruchwyliaeth, am esbonio i glaf yr hyn a fydd yn digwydd iddynt – ac, mewn rhai achosion, am sicrhau eu caniatâd ar gyfer mân weithdrefn, megis cymryd sampl gwaed neu ddarlenn pwysedd gwaed. Mewn bron pob achos arall, nid chi yn unig fydd yn meddu ar y cyfrifoldeb dros geisio caniatâd. Beth bynnag fo'r amgylchiadau, dylech gadarnhau gyda'r claf yr hyn y maent eisoes wedi cytuno iddo o ran triniaeth, a'u bod yn fodlon i fyfyrwr fod yn gysylltiedig â'u gofal.

* Mae modd i chi ddarganfod mwy am ganiatâd yn arweiniad CMC ar gyfer meddygon cofrestredig, *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd*, sydd ar gael trwy droi at www.gmc-uk.org/consent.

Caniatâd – pethau i'w cofio

Mae angen i gleifion wybod eich bod yn fyfyrwr fel bod modd iddynt wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ydynt yn dymuno i chi fod yn gysylltiedig â'u gofal. Pan fyddant yn gwybod eich bod yn fyfyrwr, mae modd i chi ofyn a ydynt yn fodlon i chi drafod eu hiechyd gyda nhw neu gyflawni gweithdrefn. Cofiwch:

- os bydd gennych chi unrhyw bryderon ynghylch a yw claf wedi rhoi eu caniatâd i chi fod yn gysylltiedig â'u gofal neu gyflawni unrhyw fath o weithdrefn, dylech drafod eich pryderon gyda'ch goruchwylydd.
- dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith na fydd cleifion yn meddu ar alluedd i roi eu caniatâd weithiau.*
- ni ddylech gyflawni unrhyw weithdrefn ar glaf heb sicrhau eu caniatâd ar gyfer y weithdrefn benodol honno.
- rhaid i chi barchu penderfyniad cleifion nad ydynt yn dymuno i chi fod yn gysylltiedig â'u gofal.

* Gweler Rhan 3 *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd* am ragor o wybodaeth ynghylch galluedd claf i roi eu caniatâd, y mae ar gael trwy droi at www.gmc-uk.org/consent.

Cofnodi'ch eich gwaith mewn ffordd glir, manwl a darllenadwy

- 12** Rhaid i feddygon gofnodi eu gwaith mewn ffordd glir, manwl a darllenadwy. Dylai cofnodion gynnwys:
- canfyddiadau clinigol perthnasol
 - penderfyniadau a wnaethpwyd a champau gweithredu y cytunwyd arnynt (gan ddangos pwy wnaeth y rhain)
 - unrhyw gyffuriau a ragnodwyd neu ymchwiliad neu driniaeth arall
 - y wybodaeth a roddwyd i'r claf.
- 13** Mae hyn yn helpu i sicrhau gwaith tîm effeithiol, trosglwyddiad diogel a pharhad gofal. Felly, rhaid i'r wybodaeth sicrhau bod modd i unrhyw un sy'n darllen y nodiadau hynny eu deall a dibynnu ar y ffaith bod y wybodaeth yn gywir. Mae hyn yn cynnwys cleifion a'u perthnasau neu eu gofalwyr.
- 14** Fel myfyriwr meddygol, rhaid i chi sicrhau bod y nodiadau y byddwch yn eu hysgrifennu yn glir, yn fanwl ac yn ddarllenadwy, hyd yn oed pan gânt eu gwneud fel rhan o'r broses ddysgu, oherwydd y bydd hyn yn eich helpu i ddatblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnoch fel meddyg.
- 15** Dylech sicrhau bod yr holl ddogfennaeth y byddwch yn ei chyflwyno i'ch ysgol feddygol yn cael ei hysgrifennu mewn ffordd broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys canfyddiadau gweithgareddau, megis gwaith archwilio neu waith ymchwil y byddwch yn ei gyflawni fel rhan o'ch astudiaethau.

Cofnodi'ch gwaith – pethau i'w gwneud a phethau na ddylid eu gwneud

Dylech:

- nodi mewn ffordd glir eich bod yn fyfyrwr meddygol pan fyddwch yn ychwanegu unrhyw beth i nodiadau claf – dylech nodi'ch enw a'ch blwyddyn astudio fel bod modd i weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig archwilio'r hyn a ysgrifennoch
- sicrhau bod y nodiadau y byddwch yn eu hysgrifennu yn nodi'r dyddiad a'u bod yn glir, yn fanwl ac yn ddarllenadwy – hyd yn oed os na fyddant yn cael eu cynnwys yng nghofnod swyddogol claf
- sicrhau y cofnodir eich nodiadau cyn gynted ag y bo modd ar ôl i chi gael cyswllt â'r claf
- cael gwared ar eich nodiadau mewn ffordd ofalus – yn enwedig pan fyddant yn ymwneud â chleifion – gan ddefnyddio cyfleusterau a ddyluniwyd er mwyn cael gwared ar ddeunydd cyfrinachol.

Ni ddylech:

- ysgrifennu unrhyw beth na fydddech yn dymuno iddo fod yn gyhoeddus mewn nodiadau, coflyfrau neu adroddiadau
- cyflwyno gwaith sy'n anodd i'w ddarllen neu wedi'i gyflwyno mewn ffordd wael
- storio deunydd cyfrinachol mewn manau anniogel – mae hyn yn cynnwys ffeiliau digidol a ffeiliau papur.

Parth 2: Diogelwch ac ansawdd

Cyfrannu at a chydymffurfio â systemau er mwyn diogelu cleifion

- 16** Nid yn unig y mae'n rhaid i feddygon cofrestredig gydymffurfio â rheolau a gynlluniwyd i ddiogelu cleifion, ond mae'n rhaid iddynt geisio gwella ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu rhoi i gleifion hefyd – ar lefel unigol ac ar lefel systemau.
- 17** Fel myfyriwr meddygol, byddwch yn dysgu am wella ansawdd a sicrhau ansawdd, a byddwch yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn archwiliadau ac adolygiadau. Yn ogystal, byddwch mewn lleoliadau clinigol yn ystod eich astudiaethau ac mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich goruchwylydd pan fydd pethau'n mynd o le a phan fydd y problemau hyn yn effeithio ar ofal cleifion, neu pan allent effeithio ar ofal cleifion.
- 18** Yn ystod eich hyfforddiant meddygol, efallai y byddwch yn dyst i rywbeth yn mynd o'i le gyda gofal claf neu'n gysylltiedig â rhywbeth yn mynd o'i le gyda gofal claf, ac efallai y gofynnir i chi gyfrannu at ymchwiliad mewnol. Er yr hysbysir eich ysgol feddygol o ddigwyddiadau arwyddocaol fel arfer, dylech gysylltu â staff uwch (er enghraifft, eich cyfarwyddwr blwyddyn neu'ch tiwtor personol) yn gynnar, fel bod modd iddynt drefnu cymorth ar eich cyfer. Bydd hyn yn diogelu cleifion ac yn caniatáu i'r tîm clinigol yr ydych yn gweithio gydag ef i ymateb mewn ffordd briodol.

19 Rhaid i chi gyfrannu mewn ffordd onest ac agored i'r broses. Mae gweithredu mewn ffordd agored a gonestrwydd yn allweddol er mwyn bod yn fyfyrwr meddygol da ac yn feddyg diogel a dibynadwy. Efallai y byddwch yn clywed hyn yn cael ei gyfeirio ato fel eich dyletswydd broffesiynol gonestrwydd.*

Ymateb i risgiau i ddiogelwch

20 Mae'r tîm cyfan yn gyfrifol am ddiogelwch cleifion, ac fe allai'r tîm gynnwys aelodau clinigol ac anghlinigol. Dyma pam bod yn rhaid i feddygon cofrestredig weithredu er mwyn mynegi pryderon a chynorthwyo eraill i fynegi pryderon ynghylch diogelwch cleifion.

21 Mae hyn yn berthnasol i bawb sy'n gweithio mewn lleoliad gofal iechyd – gan gynnwys myfyrwyr meddygol ar leoliadau clinigol. Nid yw diogelwch cleifion yn ymwneud â'r driniaeth glinigol y mae cleifion yn ei chael yn unig – mae'n cynnwys mynegi pryderon pan amharir ar urddas neu gysur claf hefyd.†

* Mae CMC a'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth wedi paratoi arweiniad ar y cyd ar gyfer nyrso a meddygon, *Gweithredu mewn ffordd agored a gonest pan fydd pethau'n mynd o le: dyletswydd broffesiynol gonestrwydd*, y mae ar gael trwy droi at www.gmc-uk.org/candour.

† Mae CMC wedi paratoi arweiniad ynghylch *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch* ac offeryn er mwyn gwneud penderfyniadau, a fydd yn helpu meddygon cofrestredig i wybod yr hyn i'w wneud os bydd ganddynt bryder am ddiogelwch cleifion. Gweler www.gmc-uk.org/raisingconcerns.

22 Rhaid i chi:

- fynegi unrhyw bryderon sydd gennych am ddiogelwch, urddas neu gysur cleifion yn brydlon
- dilyn polisi eich ysgol feddygol ynghylch mynegi pryderon, pryd bynnag y bo modd.

Sut i fynegi pryder am ddiogelwch claf

- 23** Rydym yn cydnabod ei bod yn gallu bod yn anodd mynegi pryderon am ofal claf. Fel myfyriwr meddygol, efallai na fyddwch yn teimlo'n gyffyrddus ynghylch codi materion gyda'ch goruchwylwyr, y gallent fod yn gyfrifol am lunio asesiadau o'ch perfformiad ar leoliad. Yn ogystal, efallai y byddwch yn teimlo'n anghyffyrddus wrth godi pryderon gyda chlinigwyr uwch. Dyma pam y dylech chi, pryd bynnag y bo modd, ddilyn polisi ffurfiol eich ysgol feddygol ynghylch mynegi pryderon, a fydd yn eich helpu i ddeall sut i ddelio â materion anodd fel y rhain.
- 24** Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai na fyddwch yn teimlo'n gyffyrddus wrth ddilyn polisi yr ysgol feddygol (er enghraifft, oherwydd mai'r unigolyn sy'n peri pryder i chi yw'r un y mae'n rhaid i chi ei fynegi iddynt), ond rhaid i chi chwilio am ffordd arall o fynegi eich pryder o hyd. Er enghraifft, mae modd i chi siarad ag aelod o staff y mae gennych chi berthynas barhaus â nhw, fel eich tiwtor personol, a fydd yn gallu eich cynorthwyo. Os bydd y pryder yn codi yn ystod eich cyfnod ar leoliad, efallai y bydd o gymorth i chi droi at bolisi mynegi pryderon darparwr y lleoliad.

- 25 Mae'n gallu bod yn anodd i sefydliadau ddelio â phryderon dienw, oherwydd ei bod yn anoddach ymchwilio i'r sefyllfa os na fyddant yn gwybod pwy wnaeth y gŵyn. Felly, dylech osgoi mynegi pryderon mewn ffordd ddienw pryd bynnag y bo modd. Cofiwch, er y bydd eich ysgol feddygol yn gwybod pwy fynegodd y pryder, ni fydd angen iddynt eich enwi chi fel ffynhonnell y pryder o reidrwydd pan fyddant yn cynnal ymchwiliad.

Beth os bydd fy mhryder yn ymwneud â'm ffrindiau neu fy nghyfoedion?

Mae'n gallu bod yn anodd mynegi pryderon am gyd fyfyrwyr, y gallent fod yn bobl yr ydych chi'n gweithio gyda nhw ar brosiectau neu leoliadau, neu'ch ffrindiau. Ond fel myfyriwr sy'n dewis ymuno â phroffesiwn rheoledig, eich dyletswydd chi yw rhoi cleifion yn gyntaf ac mae hyn yn cynnwys cleifion y byddwch yn eu gweld ar leoliadau a'r rhai y bydd eich cyd fyfyrwyr yn eu trin yn y dyfodol.

Efallai eich bod yn pryderu am ymddygiad cyd fyfyriwr, er enghraifft, os byddant:

- yn anghwrtais i glaf
- yn methu cyfrannu at waith grŵp a roddwyd i chi
- yn postio cynnwys amhriodol ar gyfryngau cymdeithasol (gweler y blwch am Yr hyn i'w wneud a'r hyn na ddylid ei wneud ar gyfryngau cymdeithasol ar dudalennau 36-37)
- yn feddw pan fyddant yn mynychu lleoliad, darlith neu seminar.

Gall fod yn anoddach fyth mynegi pryderon am iechyd un o'ch cyfoedion, ond rhaid i chi ddwyn sylw eich ysgol feddygol at hyn os ydych chi'n gofidio am eu diogelwch neu eu lles. Ni ddylech fyth geisio trin cyflwr iechyd cyd fyfyrwr a phan fyddwch yn mynegi eich pryderon, mae'n bwysig cofio y bydd hyn yn galluogi eich ysgol feddygol i roi help a chymorth iddynt.

- 26** Os nad ydych yn siŵr a ddylech chi fynegi pryder yn ffurfiol neu beidio, dylech ofyn i'ch ysgol feddygol neu i weithiwr gofal iechyd proffesiynol profiadol am gyngor. Mae arweiniad CMC i feddygon ynghylch mynegi pryderon yn cydnabod materion fel hyn, gan gynnwys, er enghraifft, os yw'r unigolyn sy'n peri pryder yn rhan o'r broblem neu os nad oes gan y meddyg hyder y rhoddir sylw digonol i'r pryder ar sail profiadau blaenorol. Felly, efallai y bydd yr arweiniad hwn o gymorth i chi.*

Beth ddylwn i ei wneud os bydd gennyf i bryder am aelod o staff yn fy ysgol feddygol neu mewn lleoliad clinigol?

- 27** Mae yr un mor bwysig mynegi pryderon sydd gennych am y staff yr ydych yn gweithio â nhw. Er enghraifft, meddyg, nyrs neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall y maent neu y gallent fod:
- yn gweithredu y tu hwnt i'w cymhwysedd
 - yn methu gweld pryderon am eu hiechyd neu ddilyn cyngor am y pryderon hyn.

* Gweler adran *Camau er mwyn mynegi pryder yn arweiniad CMC, Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch*, y mae ar gael trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance/11867.asp.

- 28** Yn ogystal, efallai bod gennych chi bryderon am y darlithwyr a'r staff yn eich ysgol feddygol. Ac er nad ydynt yn peri risg uniongyrchol i gleifion efallai, bydd eich ysgol feddygol yn dymuno cael gwybod o hyd os ydych chi'n pryderu am iechyd neu les rhywun. Yna, bydd modd iddynt gymryd camau er mwyn galluogi'r unigolyn i gael y cymorth y mae angen iddynt ei gael. Rhaid i chi fynegi pryderon mewn ffordd gyfrinachol bob amser, a heb farnu.

Mynegi pryderon – dyletswydd gyfreithiol neu foesol?

Nid yw myfyrwyr meddygol yn cofrestru â CMC ac nid ydynt yn gyflogeion darparwyr eu lleoliad. Mae hyn yn golygu nad yw'n gyfreithlon i CMC na darparwyr y lleoliad fynnu bod myfyrwyr yn mynegi pryderon. Fodd bynnag, mae gan fyfyrwyr berthynas ffurfiol gyda'u hysgol feddygol, a fydd yn disgwyl iddynt fynegi pryderon.

Yn ogystal, mae gan fyfyrwyr meddygol gyfrifoldeb moesol i fynegi pryderon ynghylch diogelwch, urddas a chysur cleifion. Nid yw proffesiynoldeb yn golygu gwneud y peth lleiaf y mae gofyn ei wneud – mae'n golygu gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu cleifion.

Diogelu cleifion a chydweithwyr rhag unrhyw risg a achosir gan eich iechyd

- 29** Rhaid i feddygon cofrestredig ddiogelu cleifion rhag unrhyw risg a achosir gan eu hiechyd. Er mwyn gwneud hyn, rhaid iddynt ofyn am help gan gydweithiwr addas a dilyn eu cyngor ynghylch unrhyw newidiadau i'w harfer y mae'r cydweithiwr o'r farn bod angen eu gwneud.
- 30** Byddwch yn cael cyswllt sylweddol gyda chleifion yn ystod eich cyfnod ar leoliadau clinigol. Gallai unrhyw gyflyrau iechyd sydd gennych chi effeithio arnyn nhw, yn ogystal â'ch cyd fyfyrwyr ac athrawon.
- 31** Os ydych chi'n gwybod neu'n amau bod gennych chi gyflwr y byddai modd ei drosglwyddo i gydweithwyr neu gleifion, rhaid i chi ddilyn arweiniad eich ysgol feddygol am hyn.
- 32** Fel myfyriwr meddygol, yn ystod eich cyfnod yn astudio ac ar leoliad, rydych yn debygol o wynebu sefyllfaoedd a fydd yn cael effaith emosïynol arnoch. Ar brydiau, efallai y byddwch dan straen ac yn gofidio. Mae hyn yn hollol normal a bydd eich ysgol feddygol yn eich cynorthwyo gyda ffyrdd diogel o rannu a myfyrio am brofiadau anodd. Ond os ydych yn pryderu am eich lefelau gofid, dylech geisio help gan eich meddyg teulu a chan ffynonellau priodol eraill (er enghraifft, llinellau cymorth) er mwyn rhoi sylw i unrhyw faterion yn gynnar. Gallai hyn gynnwys gwneud addasiadau i'ch hyfforddiant neu'ch arfer, yn ôl yr angen.

-
- 33** Dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith y gallai rhai cyflyrau sy'n fân gyflyrau fel arfer – megis annwyd – gael effaith anghymesur ar rai cleifion, er enghraifft, y rhai sydd â systemau imiwnedd dan fygythiad. Bydd angen i chi gofio hyn pan fyddwch yn penderfynu a ddylech fynd i leoliad os ydych yn anhwylys.
- 34** Rhaid i chi gydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau iechyd galwedigaethol eich ysgol feddygol neu'ch prifysgol (er enghraifft, imiwneiddio rhag clefydau trosglwyddadwy difrifol, cyffredin).
- 35** Rhaid i chi ymgysylltu â phroses gyfeirio iechyd galwedigaethol os yw'ch iechyd wedi gwaethygu, neu os ceir pryderon y gallai'ch iechyd gael effaith ar eich gallu i astudio.
- 36** Nid oes angen i chi gyflawni gweithdrefnau a allai arwain at gysylltiad* (EPPs) er mwyn cyflawni canlyniadau addysg feddygol israddedig. Gall myfyrwyr sydd â feirysau a gludir yn y gwaed astudio meddygaeth, ond efallai na fydd modd iddynt gyflawni EPPs ac efallai y gosodir cyfyngiadau ar eu lleoliadau clinigol. Yn ogystal, rhaid iddynt fynd trwy'r broses sgrinio iechyd a argymhellir cyn iddynt gyflawni unrhyw EPPs a bydd yn rhaid iddynt gyfyngu eu gwaith meddygol pan fyddant yn graddio. Mae modd i chi weld gwybodaeth ac arweiniad pellach trwy droi at www.medschools.ac.uk/students/howtoapply/publications/pages/BBV.aspx.

* EPPs yw'r rhai lle y ceir risg y gallai anaf i'r gweithiwr arwain at gyswllt rhwng meinwe agored y claf a gwaed y gweithiwr. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys y rhai lle y gallai dwylo gweithiwr gael cyswllt ag offerynnau miniog, pen nodwyddau neu feinweoedd miniog (sbigylau asgwrn neu ddannedd) y tu mewn i geudod corff agored claf, anaf neu fan anatomaid cyfyngedig, lle na fydd y dwylo neu flaenau'r bysedd yn hollol weladwy drwy'r amser, pan fyddant yn gwisgo menig.

Cael cyngor meddygol annibynnol

- 37** Pryd bynnag y bo modd, dylai meddygon osgoi trin eu hunain neu ddarparu gofal meddygol i unrhyw un y mae ganddynt berthynas bersonol agos â nhw. Rhaid iddynt geisio cyngor meddygol annibynnol am faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd eu hunain.
- 38** Fel myfyriwr meddygol, bydd angen i chi geisio cyngor annibynnol a gwrthrychol gan feddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n meddu ar gymhwyster priodol, a pheidio dibynnu ar yr hyn yr ydych chi wedi'i ddysgu fel myfyriwr meddygol neu safbwyntiau myfyrwyr eraill, aelodau teuluol sy'n meddu ar gymhwyster meddygol neu ffrindiau. Mae'n bwysig bod modd i chi fanteisio ar gyngor annibynnol a dylech gofrestru gyda meddyg teulu sy'n lleol i'ch ysgol feddygol.

Eich iechyd – yr hyn y dylech ei wneud a’r hyn na ddylech ei wneud

Dylech:

- ddweud wrth eich ysgol feddygol os oes gennych chi gyflwr iechyd neu os bydd newidiadau sylweddol yn digwydd i gyflwr iechyd sefydlog sydd gennych chi
- cael cymorth priodol – mae gan bob ysgol feddygol systemau cymorth mewn grym er mwyn eich helpu, felly manteisiwch ar y rhain
- cofrestru gyda meddyg teulu sy’n lleol i’ch ysgol feddygol
- ceisio cyngor annibynnol os oes gennych chi gyflwr iechyd neu os ydych o’r farn y gallai’ch iechyd neu’ch amgylchiadau personol fod yn effeithio ar eich astudiaethau neu’ch hyfforddiant
- sicrhau eich bod yn dilyn unrhyw gynllun triniaeth a roddir i chi, ac ni ddylech wneud unrhyw newidiadau i’ch triniaeth heb ymgynghori â’r meddyg sy’n eich trin.

Ni ddylech:

- ei guddio – bydd eich ysgol feddygol yn dymuno eich helpu
- gwneud diagnosis o’ch cyflwr neu drin eich hun
- ceisio triniaeth gan ffrindiau, teulu neu’r rhai sy’n agos i chi.

Hysbysu'ch ysgol feddygol

- 39** Rhaid i feddygon ddatgelu cyflwr iechyd i CMC os bydd yn peri risg i gleifion, neu os bydd pryderon am ofal clinigol neu ymddygiad meddyg, sy'n peryglu cleifion neu hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, ac fe allai cyflwr iechyd y meddyg fod yn ffactor cyfrannol.
- 40** Fel myfyriwr meddygol, rhaid i chi ddweud wrth eich ysgol feddygol am unrhyw gyflyrau iechyd difrifol, neu unrhyw agwedd ar eich iechyd neu'ch amgylchiadau personol y gallent effeithio ar eich hyfforddiant (yn enwedig eich lleoliadau) neu'ch perthynas gyda chydweithwyr. Diben hyn yw sicrhau bod modd i'ch ysgol feddygol eich cynorthwyo, ac ni fydd modd iddi wneud hyn oni bai ei bod yn gwybod bod gennych chi gyflwr iechyd. Mae dweud wrth eich ysgol feddygol yn dangos bod gennych chi ddirnadaeth ynghylch yr effaith y gallai'ch cyflwr ei chael ar gleifion, eich cyd fyfyrwyr ac arnoch chi. Mae hwn yn ffactor hollbwysig y bydd ysgolion meddygol yn ei ystyried mewn perthynas ag iechyd ac addasrwydd i wneud gwaith meddygol.
- 41** Mae *Cynorthwyo myfyrwyr meddygol sydd â chyflyrau iechyd meddwl** yn arweiniad i fyfyrwyr meddygol ac ysgolion meddygol ynghylch delio â chyflyrau iechyd meddwl. Mae *Croesawu a gwerthfawrogi*† yn cynnig cyngor i ysgolion meddygol ac addysgwyr ôl-raddedigion ynghylch sut i gynorthwyo dysgwyr anabl, a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor.†

* Gweler www.gmc-uk.org/mentalhealth

† Gweler www.gmc-uk.org/welcomedandvalued

Parth 3: Cyfathrebu, partneriaeth a gwaith tîm

Cyfathrebu mewn ffordd effeithiol

- 42** Rhaid i feddygon weithio mewn partneriaeth gyda chleifion ac mae cyfathrebu da yn hanfodol os ydynt yn mynd i wneud hyn yn llwyddiannus. Mae gweithio mewn partneriaeth yn ymwneud â chynorthwyo cleifion i wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal, trwy wrando ar a pharchu eu safbwyntiau ynghylch eu hiechyd. Yn ogystal, mae gweithio mewn partneriaeth yn ymwneud â rhannu gwybodaeth y mae cleifion yn dymuno'i chael neu y mae angen iddynt ei chael, mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i'w hanghenion.
- 43** Fel myfyriwr meddygol, byddwch yn dysgu sut i gyfathrebu mewn ffordd effeithiol mewn amrywiaeth o leoliadau clinigol, dynwaredol ac anghlinigol, ac mae'n bwysig eich bod yn defnyddio'r hyn yr ydych yn ei ddysgu wrth i chi ryngweithio â chleifion.
- 44** Wrth gyfathrebu â chleifion, rhaid i chi:
- fod yn onest pan na fyddwch yn gwybod rhywbeth. Fel myfyriwr, nid oes disgwyl i chi wybod yr atebion i'r holl gwestiynau y gallai fod gan glaf, ond mae disgwyl i chi wrando arnynt a pharchu eu safbwyntiau. Dylech wneud eich gorau i ddarganfod yr atebion i gwestiynau'r claf eich hun, neu drosglwyddo'r ymholiad i rywun a fydd yn gallu helpu

- ystyried anghenion iaith a chyfathrebu y claf ac elfennau posibl eraill y gallent rwystro cyfathrebu effeithiol (er enghraifft, poen neu ofid) a gofyn am gymorth er mwyn eich helpu i gyfathrebu mewn ffordd effeithiol yn ôl yr angen
- bod yn gwrtais ac yn ystyriol bob amser o unrhyw un sy'n agos i'r claf, megis perthnasau, gofalwyr a ffrindiau – nid yn ystod ymgynghoriad yn unig.*

Cydweithio gyda chydweithwyr er mwyn cynnal neu wella gofal cleifion

- 45** Rhaid i feddygon gydweithio gyda meddygon eraill a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau y caiff cleifion eu trin mewn ffordd effeithiol.
- 46** Yn ystod eich cyfnod ar leoliadau clinigol, rhaid i chi fod yn ymwybodol o waith y tîm gofal iechyd a chyfrannu'n llawn ato. Rhaid i chi gyfrannu mewn ffordd effeithiol i unrhyw dîm yr ydych yn aelod ohono yn eich hyfforddiant anghlinigol.
- 47** Rhaid i chi drin eich cydweithwyr gyda pharch. Mae hyn yn cynnwys eich cyd fyfyrwyr, athrawon clinigol ac anghlinigol, a'r rhai sy'n gyfrifol am weinyddu'ch cwrs. Yn ogystal, byddwch yn dysgu gyda myfyrwyr o broffesiynau iechyd eraill, sy'n bwysig er mwyn eich helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o'r rolau a gyflawnir gan wahanol broffesiynau mewn tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol.

* Mae modd i chi weld rhagor o wybodaeth ac adnoddau rhyngweithiol sy'n ceisio helpu meddygon i ddarparu gofal da ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu, ar wefan anableddau dysgu CMC. Gweler www.gmc-uk.org/learningdisabilities.

48 Rhaid i chi:

- gydweithio gyda'ch athrawon, eich hyfforddwyr, staff gweinyddol neu staff cymorth a chyd fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai o broffesiynau gofal iechyd eraill
- trin eich holl gymheiriaid a'ch cydweithwyr mewn ffordd deg a gyda pharch
- deall y gall eich ymddygiad chi ddylanwadu ar ba mor dda y mae tîm yn gweithio a bod yn barod i addasu'ch ymddygiad er mwyn cyflawni nodau'r tîm.

Addysgu, hyfforddi, cynorthwyo ac asesu

- 49** Mae pob aelod o'r proffesiwn meddygol yn gyfrifol am gynorthwyo aelodau llai profiadol. Mae hyn yn golygu y dylai meddygon fod yn barod i gyfrannu at addysgu a hyfforddi meddygon eraill a myfyrwyr, a dylent fod yn fodlon ymgymryd â rolau mentora. Yn ogystal, mae CMC yn disgwyl i feddygon gymryd rhan yn y broses o asesu meddygon dan hyfforddiant a rhoi adborth ar gyfer arfarniadau cydweithwyr. Rhaid iddynt gyflawni'r gweithgareddau hyn mewn ffordd agored a gonest.
- 50** Fel myfyriwr meddygol, efallai y bydd disgwyl i chi fentora myfyrwyr eraill neu gofynnir i chi roi adborth am eich cymheiriaid. Os gofynnir i chi wneud hyn, rhaid i chi wneud hynny mewn ffordd onest, adeiladol, agored a theg.

- 51** Fel myfyriwr meddygol, gofynnir i chi roi adborth am ansawdd eich lleoliadau a'ch addysgu. Rhaid i chi roi'r adborth hwn pan ofynnir amdano, oherwydd y bydd yn helpu'ch ysgol feddygol i wella ansawdd cyffredinol yr addysg a ddarparir ganddi. Rhaid i chi fod yn deg, yn adeiladol ac yn broffesiynol yn eich adborth, gan wneud sylwadau sy'n seiliedig ar eich profiad chi. Dylech geisio amlygu meysydd o arfer da, yn ogystal â nodi meysydd lle y byddai modd gwneud gwelliannau.

Parhad gofal a chydlynu gofal

- 52** Rhaid i feddygon cofrestredig gyfrannu at drosglwyddiad diogel cleifion rhwng gwahanol feddygon, timau a lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth berthnasol am y claf gyda'r cydweithiwr neu'r tîm sy'n mynd i fod yn gyfrifol am eu gofal. Rhaid iddynt deimlo'n fodlon, pan fyddant yn trosglwyddo neu'n dirprwyo gofal, eu bod yn ei roi i rywun sy'n meddu ar y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol i ddarparu gofal diogel ar gyfer y claf.
- 53** Fel myfyriwr meddygol uwch, mae'n debygol y bydd disgwyl i chi ofalu am gleifion, dan oruchwyliaeth. Pan fyddwch yn trosglwyddo gofal claf, rhaid i chi sicrhau'ch bod yn trosglwyddo gofal i unigolyn priodol a'ch bod yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda nhw. Os bydd gennych chi unrhyw bryderon am y broses hon, dylech ofyn i gydweithiwr uwch am help.

Sefydlu a chynnal partneriaethau gyda chleifion

- 54** Rhaid i bob meddyg cofrestredig sefydlu a chynnal partneriaethau gyda chleifion. Mae hyn yn golygu bod yn gwrtais ac yn ystyriol, gan drin cleifion fel unigolion. Yn ogystal, mae'n golygu parchu eu hurddas a'u preifatrwydd a thrin cleifion mewn ffordd deg a gyda pharch, beth bynnag fo'r dewisiadau y maent yn eu gwneud yn eu bywyd a'u credoau.
- 55** Fel myfyriwr meddygol, byddwch yn dysgu sut i feithrin partneriaeth gyda chleifion. Felly, rhaid i chi:
- fod yn gwrtais ac yn ystyriol bob amser
 - gwranddo ar safbwyntiau a phryderon cleifion ac ymateb iddynt
 - parchu urddas, cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion
 - trin cleifion mewn ffordd deg a gyda pharch, beth bynnag fo'ch barn chi am y dewisiadau y maent yn eu gwneud yn eu bywyd neu eu credoau
 - nodi'r rôl y byddwch chi'n ei gyflawni mewn perthynas â'u gofal i gleifion.

Cynnal cyfrinachedd cleifion

- 56** Mae gan bob claf yr hawl i ddisgwyl y bydd eu meddygon yn cadw gwybodaeth amdanynt yn gyfrinachol. Mae cyfrinachedd yn rhan ganolog o'r ymddiriedaeth rhwng meddygon a chleifion.
- 57** Fodd bynnag, nid yw cyfrinachedd yn rhywbeth absoliwt, ac mae rhannu gwybodaeth briodol yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn ffordd effeithlon. Byddwch yn dysgu am hyn yn yr ysgol feddygol, ond bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r ffaith na ddylech chi fyth rannu gwybodaeth gyfrinachol am glaf gydag unrhyw un nad ydynt yn ymwneud â'u gofal yn uniongyrchol, heb sicrhau caniatâd y claf.
- 58** Mae nifer o ddatgeliadau amhriodol yn cael eu gwneud yn anfwriadol. Ni ddylech rannu gwybodaeth adnabyddadwy am glaf mewn man lle y byddai modd i rywun eich clywed, megis mewn man cyhoeddus neu ar gyfryngau cymdeithasol, neu ei chynnwys mewn unrhyw waith neu goflyfrau y byddwch yn eu cyflwyno. Rhaid i chi fod yn glir am y wybodaeth gyfrinachol y mae claf wedi cytuno bod modd ei rhannu gyda ffrindiau a theulu cyn i chi drafod eu gofal. Mae modd i chi weld rhagor o wybodaeth ynghylch pryd a sut y mae modd i chi ddatgelu gwybodaeth bersonol am gleifion – ar ôl sicrhau eu caniatâd, pan fo'r gyfraith yn mynnu hynny a phan fo hynny er budd y cyhoedd – yn arweiniad CMC, [Cyfrinachedd](#).*
- 59** Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn unrhyw bolisiau eich ysgol feddygol, eich prifysgol neu ddarparwr eich lleoliad er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei storio a'i gwaredu mewn ffordd ddiogel.

* Gweler *Cyfrinachedd* at www.gmc-uk.org/confidentiality

Sut mae cyfrinachedd yn berthnasol i'm lleoliadau?

Mae'n normal eich bod yn dymuno trafod pethau yr ydych chi wedi'u gweld ar leoliadau clinigol gyda chydweithwyr neu ffrindiau. Byddwch yn gweld cyflyrau meddygol anarferol ac efallai y byddwch yn bresennol pan fydd cleifion yn cael canlyniadau anffafriol. Ond ni ddylech chi fyth ddatgelu gwybodaeth adnabyddadwy cleifion heb sicrhau eu caniatâd.* Os na fyddwch yn siŵr am yr hyn y dylech chi ei rannu ar ôl y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ar gyfer ymchwiliad neu goflyfr, dylech ofyn am gyngor cyn i chi ddatgelu unrhyw wybodaeth.

Yn ogystal, dylech sicrhau na fyddwch fyth yn trafod cleifion mewn man cyhoeddus neu ar gyfryngau cymdeithasol. Hyd yn oed os na fyddwch yn nodi enw claf, mae siawns y gallai rhywun gerllaw (neu ar-lein, os ydych ar gyfryngau cymdeithasol) fod yn gwybod pwy yr ydych chi'n sôn amdanynt.

Os ydych yn dymuno siarad â chydweithiwr, ffrind neu oruchwylydd am yr hyn yr ydych chi wedi'i weld ar leoliad, dim ond mewn man preifat y dylech chi wneud hynny. Ac ni ddylech nodi enw'r claf, ac eithrio i glinigwr sy'n ymwneud â'u gofal yn uniongyrchol.

Am ragor o wybodaeth, gweler arweiniad CMC i feddygon cofrestredig, [Arfer meddygol da](#), [Cyfrinachedd](#) a [Defnydd meddygon o gyfryngau cymdeithasol](#). Mae modd i chi weld y rhain trwy droi at **www.gmc-uk.org/guidance**.

* Am ragor o wybodaeth am hyn, gweler paragraff 8–9 arweiniad CMC *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gweithio gyda'i gilydd*. Ar gael trwy droi at www.gmc-uk.org/consent.

Yr hyn y dylech ei wneud a'r hyn na ddylech ei wneud ar gyfryngau cymdeithasol

Dylech:

- archwilio'ch gosodiadau preifatrwydd fel eich bod yn gwybod pwy sy'n gallu gweld beth ar y platfformau yr ydych yn eu defnyddio. Ond cofiwch na all gwefannau cyfryngau cymdeithasol warantu cyfrinachedd waeth pa osodiadau preifatrwydd y byddwch yn eu defnyddio
- cofio y gallai'r apiau yr ydych yn eu defnyddio gysylltu â'ch proffil ar gyfryngau cymdeithasol ac y gallai gwybodaeth o'r wefan honno gael ei gweld gan ddefnyddwyr yr ap
- cynnal terfynau trwy beidio ymgysylltu â chleifion neu eraill am ofal claf trwy'ch platfformau neu'ch proffiliau personol ar gyfryngau cymdeithasol. Yn hytrach, os yw hynny'n briodol, dylech ddefnyddio platfform neu broffil proffesiynol ar wahân er mwyn ymateb
- unwaith y cyhoeddir gwybodaeth ar wefannau cyfryngau cymdeithasol, cofiwch na fydd modd i chi reoli sut y caiff ei defnyddio gan eraill efallai, a'i bod yn gallu bod yn anodd ei thynnu oddi ar y rhyngrwyd neu'r wefan y'i postiwyd arni yn wreiddiol
- defnyddio cyfryngau cymdeithasol er mwyn mynegi'ch safbwyntiau, ond ni ddylech ymddwyn mewn ffordd ddirmygus tuag at ddefnyddwyr eraill, ac ni ddylech bostio cynnwys sy'n gwahaniaethu
- meddwl yn ofalus am y ffordd y gallai eraill, yn enwedig cleifion presennol a chleifion yn y dyfodol, ddirnad eich cynnwys.

- bod yn ymwybodol o sut i reoli ac ymateb i gam-drin ar-lein. Os ydych chi'n cael eich bwlio gan gydweithiwr ar-lein cysylltwch â'ch ysgol feddygol am gyngor ar y camau nesaf. Gallwch hefyd [gysylltu â'r CMC drwy ein ffurflen ar-lein neu drwy gysylltu â ni dros y ffôn neu drwy e-bost](#).*

Ni ddylech:

- rannu gwybodaeth am gleifion neu bostio gwybodaeth a allai ddynodi manylion claf
- camgyfleu'ch sgiliau neu lefel eich hyfforddiant i eraill
- cyhoeddi cwynion am unigolion yn eich ysgol feddygol neu ddarparwyr lleoliad clinigol.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi gyfeirio at ein [tudalennau cyfryngau cymdeithasol](#)[†] yn ein hwb moeseg am ragor o wybodaeth.

* Gweler www.gmc-uk.org/concerns/supporting-you-with-your-concern/how-to-raise-a-concern-with-us

† Gweler www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-hub/social-media#using-social-media

Gwneud gwrthwynebiad cydwybodol

- 60** Gall meddygon ddewis peidio darparu mathau penodol o driniaeth oherwydd eu credoau a'u gwerthoedd personol, ar yr amod nad yw hyn yn arwain at wahaniaethu yn erbyn unigolion neu grwpiau o gleifion. Os bydd gan feddyg wrthwynebiad cydwybodol i'r cam o drefnu neu ddarparu gweithdrefn benodol, rhaid iddynt esbonio hyn i'r claf, dweud wrthynt am eu hawl i weld meddyg arall a sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth er mwyn gwneud hynny. Ni ddylai meddygon fynegi'r ffaith nad ydynt yn cymeradwyo ffordd o fyw, dewisiadau neu gredoau'r claf wrth wneud hyn. Mae modd i chi weld rhagor o wybodaeth yn arweiniad CMC, [*Credoau personol ac arfer meddygol*](#).*
- 61** Mae rheidrwydd ar ysgolion meddygol i wneud addasiadau ar gyfer credoau crefyddol neu ddiwylliannol, ond rhaid iddynt sicrhau cydbwysedd rhwng yr addasiadau hyn ac ystyriaethau ymarferol. Er enghraifft, efallai y bydd angen iddynt drefnu lleoliadau clinigol neu asesiadau yn ystod gwyliau crefyddol penodol, neu yn ystod cyfnodau o ddefodau crefyddol.
- 62** Fel myfyriwr meddygol, mae gennych chi hefyd yr hawl i arfer gwrthwynebiad cydwybodol i rai mathau o driniaethau, a dylech drafod hyn gyda'ch ysgol feddygol. Fodd bynnag, rhaid i chi gyflawni'r galluoedd a ddisgrifir yn nogfen CMC, [*Canlyniadau ar gyfer Graddedigion*](#).†

* Gweler www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors/personal-beliefs-and-medical-practice

† Gweler www.gmc-uk.org/education/standards-guidance-and-curricula/standards-and-outcomes/outcomes-for-graduates

Parth 4: Cynnal ymddiriedaeth

Dangos parch at gleifion

- 63** Ni ddylai meddygon ddefnyddio'u sefyllfa broffesiynol er mwyn canlyn perthynas rywiol neu berthynas emosiynol amhriodol gyda chleifion neu'r rhai sy'n agos iddynt.
- 64** Pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda thriniaeth claf, rhaid i feddygon fod yn agored ac yn onest gyda chleifion a gofalwyr.
- 65** Fel myfyriwr meddygol, bydd eich astudiaethau'n golygu y byddwch yn cael cyswllt â chleifion ac aelodau'r cyhoedd, sy'n gallu bod yn agored i niwed mewn ffordd gorfforol ac emosiynol. Oherwydd hyn, a'r ffaith y byddwch yn ymuno â phroffesiwn y mae pobl yn ymddiried ynddo, ni ddylech ddefnyddio'ch sefyllfa er mwyn canlyn perthynas rywiol neu berthynas emosiynol amhriodol gyda nhw. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd pan fydd claf neu rywun sy'n agos iddynt yn ceisio cychwyn perthynas gyda chi.
- 66** Mae trin cleifion gyda pharch yn cynnwys peidio mynegi'ch credoau personol i gleifion mewn ffordd sy'n manteisio ar y ffaith eu bod yn agored i niwed neu mewn ffordd a fyddai'n peri gofid iddynt.
- 67** Fel myfyriwr meddygol, ni fyddwch chi'n gyfrifol am ofal claf mewn ffordd uniongyrchol, oherwydd y bydd eich goruchwylydd yn meddu ar y cyfrifoldeb hwn. Ond os byddwch o'r farn bod unrhyw agwedd ar y gofal yr ydych yn ymwneud ag ef mewn mynd o'i le, dylech ddweud wrth eich goruchwylydd cyn gynted ag y bo modd. Bydd eich goruchwylydd yn eich cynorthwyo, ac yn ôl yr angen, byddant yn eich helpu i unioni'r sefyllfa, a allai gynnwys rhoi esboniad i'r claf o'r hyn a ddigwyddodd a chynnig ymddiheuriad.

Trin cleifion a chydweithwyr mewn ffordd deg a heb wahaniaethu yn eu herbyn

68 Rhaid i feddygon ddarparu neu drefnu ymchwiliadau a thriniaeth sy'n seiliedig ar:

- yr asesiad y byddan nhw a'u claf yn ei wneud o anghenion a blaenoriaethau'r claf

a'u

- barn glinigol am effeithiolrwydd tebygol y dewisiadau o ran triniaethau.

Ni ddylai meddygon wrthod neu oedi triniaeth oherwydd eu bod o'r farn bod gweithredoedd neu ffordd o fyw claf wedi cyfrannu at eu cyflwr.

69 Fel myfyriwr meddygol, ni fydd disgwyl i chi wneud penderfyniadau am ddewisiadau ynghylch triniaethau. Ond ni ddylech ganiatáu i'ch barn neu'ch safbwyntiau chi effeithio ar y ffordd y byddwch yn trin cleifion ac eraill neu'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi iddynt.

70 Rhaid i fyfyrwyr meddygol drin eu cydweithwyr gyda pharch. Yn eich achos chi, mae cydweithwyr yn cynnwys cyd fyfyrwyr meddygol a gofal iechyd eraill, y clinigwyr a'r staff eraill yr ydych yn gweithio gyda nhw ar leoliadau clinigol, a'r staff yn eich ysgol feddygol.

71 Ni ddylech wahaniaethu mewn ffordd annheg yn erbyn cleifion neu gydweithwyr ar sail eu ffordd o fyw, eu diwylliant, neu eu statws cymdeithasol neu economaidd. Mae hyn yn cynnwys nodweddion sy'n cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth, sef:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- hil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- crefydd neu gredo
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol.

Sut mae modd i mi ddelio â thuedd anymwybodol?

Tueddiadau anymwybodol yw'r credoau, yr agweddau neu'r stereoteipiau sy'n effeithio ar eich dealltwriaeth, eich gweithredoedd neu'ch penderfyniadau mewn ffordd nad ydych chi'n ymwybodol ohoni. Yn aml, mae'r tueddiadau hyn yn effeithio ar y penderfyniadau y byddwn yn eu gwneud am bobl a sefyllfaoedd ar unwaith.

Mae arfer myfyriol yn golygu ceisio nodi'ch tueddiadau personol a sut y maent yn dylanwadu ar eich ffordd o feddwl a'r ffordd y byddwch yn ymateb i bobl neu sefyllfaoedd. Mae meithrin y gallu hwn yn hanfodol er mwyn gwneud penderfyniadau da fel gweithiwr proffesiynol.*

* Gweler *Yr ymarferydd myfyriol - canllaw i fyfyrwyr meddygol* yn www.gmc-uk.org/reflective-practitioner

Gweithredu mewn ffordd onest a chywir

Gonestrwydd

- 72** Mae cymdeithas yn ymddiried mewn meddygon ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod eu hymddygiad – ar lefel broffesiynol a phersonol – yn cyfiawnhau ymddiriedaeth eu cleifion ynddynt a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.
- 73** Fel myfyriwr sy'n dymuno ymuno â phroffesiwn y mae pobl yn ymddiried ynndo, rhaid i chi fodloni safon uwch o ran eich ymddygiad na myfyrwyr eraill sydd ar gyrsiau nad ydynt yn arwain yn uniongyrchol at ymuno â phroffesiwn.

Sut mae modd i mi ddangos gonestrwydd?

Rhaid i chi ymddwyn mewn ffordd onest o'r adeg pan fyddwch yn gwneud cais am le mewn ysgol feddygol, yn ystod eich astudiaethau a phan fyddwch yn dechrau gweithio fel meddyg.

Dyma rai pethau ymarferol y mae'n rhaid i chi eu gwneud er mwyn dangos eich bod yn onest yn eich gwaith fel myfyriwr meddygol.

- Ni ddylech honni mai'ch gwaith chi yw gwaith rhywun arall. Llên-ladrad yw hyn.
- Ni ddylech lôn-ladrata eich gwaith eich hun, trwy gyflwyno'ch gwaith a aseswyd yn flaenorol.

- Byddwch yn onest am eich profiad a'ch cymwysterau. Mae hyn yn golygu na ddylech roi unrhyw wybodaeth gamarweiniol neu anghywir i'ch goruchwylwyr neu'ch athrawon am eich cymwysterau neu'ch profiad, na chynnwys gwybodaeth o'r fath mewn dogfennau megis CVs a cheisiadau am swydd.
- Pan fyddwch yn gwneud gwaith ymchwil, sicrhewch eich bod yn adrodd canfyddiadau mewn ffordd fanwl a chywir.
- Byddwch yn onest yn eich holl gyfathrebu gyda chleifion a chydweithwyr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi nodi graddau'ch gwybodaeth mewn ffordd glir, gan gadarnhau bod y wybodaeth yr ydych yn ei rhoi yn gywir.
- Byddwch yn agored ac yn onest am eich iechyd, gan fanteisio ar y prosesau a weithredir gan eich ysgol feddygol er mwyn eich cynorthwyo.
- Byddwch yn onest yn y gwaith y byddwch yn ei gyflwyno fel rhan o'ch cwrs. Mae hyn yn golygu na ddylech honni eich bod wedi gwneud rhywbeth, fel gweithdrefn ymarferol ar leoliad clinigol, os nad ydych wedi gwneud hynny.
- Ni ddylech ddweud eich bod wedi mynychu sesiynau addysgu os nad oeddech yn bresennol ynddyn. Ac ni ddylech ofyn i fyfyrwr arall fewngofnodi ar eich rhan.
- Byddwch yn onest ac yn agored mewn unrhyw drafodion ariannol a masnachol gyda chyflogwyr, yswirwyr a sefydliadau ac unigolion eraill.

Bod yn agored ac achosion cyfreithiol neu ddisgyblu

- 74** Rhaid i feddygon fod yn onest ac yn ddibynadwy os gofynnir iddynt roi tystiolaeth mewn unrhyw broses gyfreithiol neu broses ddisgyblu. Yn ogystal, disgwylir iddynt adrodd am faterion penodol i CMC, er enghraifft, os byddant yn cael rhybudd gan yr heddlu.
- 75** Nid yw myfyrwyr meddygol yn cofrestru gyda CMC, ond mae gennych chi gyfrifoldebau tebyg mewn perthynas â'ch ysgol feddygol. Ni ddylai ysgolion meddygol raddio unrhyw fyfyrwr trwy ddyfarnu prif gymhwyster meddygol iddynt, nad ydynt o'r farn eu bod yn addas i wneud gwaith meddygol. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os byddwch yn bodloni'r holl gymwyseddau ac yn pasio'ch arholiadau, dim ond os bydd yn fodlon eich bod yn addas i wneud gwaith meddygol y bydd modd i'ch ysgol feddygol roi eich gradd i chi. Yn ogystal, bydd angen i chi ddatgelu unrhyw faterion addasrwydd i wneud gwaith meddygol pan fyddwch yn ymgeisio am gofrestrriad amodol gyda CMC.*
- 76** Mae gennych chi ddyletswydd i gydweithredu gyda gweithdrefnau addasrwydd i wneud gwaith meddygol ysgolion meddygol sy'n eich cynnwys chi neu'ch cydweithwyr. Yn ogystal, mae gennych chi gyfrifoldeb i ddweud wrth eich ysgol feddygol ar unwaith, a CMC pan fyddwch yn gwneud cais am gofrestrriad amodol, os byddwch:
- yn derbyn rhybudd† am gyflawni trosedd yn ystod eich cyfnod mewn ysgol feddygol

* Gweler www.gmc-uk.org/doctors/registration_applications/declaration_of_ftp.asp.

† Ni fydd yn rhaid i fyfyrwr mewn ysgol feddygol yn yr Alban ddatgelu ei fod wedi derbyn rhybudd i'r ysgol feddygol - oherwydd bod ysgolion meddygol yn cymhwyso'r gyfraith sy'n ymwneud â'r wlad y maent wedi'i lleoli ynddi ac yn yr Alban nid oes rhaid datgelu rhybuddion. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i fyfyrwr mewn ysgol feddygol yn yr Alban ddatgelu ei fod wedi derbyn rhybudd i'r GMC pan fyddant yn gwneud cais am gofrestrriad.

- wedi cael eich cyhuddo neu'ch canfod yn euog o gyflawni trosedd yn ystod eich cyfnod mewn ysgol feddygol
- wedi cael unrhyw bryderon difrifol am yr effaith y gallai eich cyflwr iechyd ei chael ar eich gallu i wneud gwaith meddygol.

77 Dylech ddweud wrth eich ysgol feddygol neu'ch prifysgol os ydych yn destun unrhyw achosion cyfreithiol y gallent fwrw amheuaeth ar eich addasrwydd i wneud gwaith meddygol. Ni ddylech aros nes bydd achosion cyfreithiol wedi dod i ben cyn gwneud hyn.

78 Os oeddech chi wedi cael unrhyw rybuddion* neu gollfarnau cyn i chi gychwyn yn yr ysgol feddygol, rhaid i chi ddatgelu'r rhain pan fyddwch yn cychwyn, oni bai eu bod yn cael eu diogelu. Sylwer bod y diffiniad o rybuddion a chollfarnau a ddiogelir yn wahanol yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd angen i chi droi at y diffiniad sy'n berthnasol i'r wlad lle y lleolir eich ysgol feddygol.

Darllenwch fwy am [rybuddion a chollfarnau a ddiogelir](#).†

79 Yn ogystal, rhaid i chi ddweud wrth eich ysgol feddygol a CMC pan fyddwch yn gwneud cais am gofrestrriad, os bydd corff rheoleiddio yn y DU neu mewn gwlad dramor wedi penderfynu bod eich addasrwydd i wneud gwaith fel aelod o'r proffesiwn rheoledig hwnnw yn cael ei amharu. Er enghraifft, nyrsio, deintyddiaeth neu'r gyfraith.

* Gweler www.gmc-uk.org/help/spentconv.htm.

† Gweler *Gwybodaeth atodol am rybuddion a chollfarnau a ddiogelir* trwy droi at www.gmc-uk.org/studentftp

80 Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau am yr hyn y dylech chi ei ddatgelu i CMC neu i'ch ysgol feddygol, mae modd i chi gael cyngor gan eich ysgol feddygol, sefydliad amddiffyn meddygol neu Gymdeithas Feddygol Prydain (BMA).

Gallwch ddarllen ein harweiniad ynghylch [cwbllhau'r datganiad addasrwydd i wneud gwaith meddygol](#).*

* Gweler www.gmc-uk.org/declaringftp

Proffesiynoldeb – meysydd allweddol sy'n peri pryder

Ymddygiad y tu allan i'r ysgol feddygol

Mae angen i fyfyrwyr meddygol ymddwyn mewn ffordd broffesiynol y tu allan i'r gwaith a'r ysgol feddygol. Mae hyn yn golygu y dylech chi osgoi gwneud pethau a fydd yn tanseilio hyder cleifion mewn meddygon a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

Er enghraifft, ni ddylech chi wneud sylwadau gwahaniaethol am unigolion neu grwpiau o bobl yn gyhoeddus neu ar gyfryngau cymdeithasol. Bydd eich ysgol feddygol yn gweithredu os byddwch yn gwneud rhywbeth amhroffesiynol, megis cael rhybudd am ymddygiad meddw, hyd yn oed os bydd hyn wedi digwydd y tu allan i'r ysgol feddygol neu yn ystod gwyliau'r haf. Mae hyn yn golygu y dylech fod yn gyfrifol am eich gweithredoedd a bod yn ymwybodol o'r ffaith y gallent gael effaith ehangach ar y ffordd y mae'ch ysgol feddygol yn ystyried eich proffesiynoldeb.

81 Rhaid i ymddygiad myfyriwr meddygol gyfiawnhau hyder cleifion a'r cyhoedd ynddynt. Isod, rhestrir enghreifftiau o ymddygiad amhroffesiynol a fyddai'n peri pryder. Mae rhai o'r enghreifftiau hyn yn berthnasol i amgylchedd yr ysgol feddygol, ond mae'n bwysig cofio bod angen i chi ymddwyn mewn ffordd broffesiynol y tu allan i'r ysgol feddygol hefyd. Gallai ymddygiad amhroffesiynol dros nifer o wahanol feysydd, neu ymddygiad amhroffesiynol sy'n digwydd dro ar ôl tro neu'n barhaus, arwain at gamau addasrwydd i wneud gwaith meddygol. **Mae'n bwysig nodi nad yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.**

Agwedd neu ymddygiad amhriodol parhaus

- Dim ymrwymiad i'r gwaith neu ddiffyg ymgysylltu â hyfforddiant, rhaglen astudio neu leoliadau clinigol
- Esgeuluso tasgau gweinyddol
- Rheolaeth amser wael
- Diffyg presenoldeb
- Sgiliau cyfathrebu gael
- Methu derbyn a dilyn cyngor addysgol ac amharoddrwydd i ddsygu o'r adborth a roddir gan eraill
- Bod yn anghwrtais tuag at gleifion, cydweithwyr neu eraill

- Amharodrzydd i ddysgu gan adborth adeiladol a roddir gan eraill
- Bod yn anystywallt yn ystod sesiynau addysgu neu yn yr amgylchedd hyfforddi
- Ymddygiad heriol tuag at athrawon clinigol neu fethu derbyn beirniadaeth
- Methu ateb neu ymateb i gyfathrebu

Methu dangos arfer meddygol da

- Camddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, megis beirniadu darparwyr lleoliadau
- Torri amodau cyfrinachedd
- Camarwain cleifion ynghylch eu gofal neu eu triniaeth
- Cyswllt beius â methiant i sicrhau caniatâd cywir gan glaf
- Aflonyddwch neu fwlio rhywiol neu hiliol, neu fathau eraill o aflonyddwch neu fwlio
- Archwiliadau amhriodol neu fethu cadw at derfynau priodol o ran ymddygiad
- Gwahaniaethu anghyfreithlon

Camymddygiad a chyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â chyffuriau neu alcohol

- Gyrru dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau
- Camddefnyddio meddyginiaeth a roddir dan bresgripsiwn
- Arferion yfed alcohol sy'n effeithio ar waith clinigol, yr amgylchedd gwaith neu'ch perfformiad yn yr amgylchedd addysgol
- Defnydd cyffuriau sy'n effeithio ar waith clinigol, yr amgylchedd gwaith neu'ch perfformiad yn yr amgylchedd addysgol - gallai hyn gynnwys cyffuriau anterth cyfreithlon
- Delio, meddu ar, neu gyflenwi cyffuriau, hyd yn oed os na chaiff unrhyw gamau cyfreithiol eu cymryd
- Patrwm o ddefnyddio alcohol mewn ffordd ormodol

Twyll neu lân-ladrad

- Twyllo mewn arholiadau
- Mewngofnodi cymheiriaid i sesiynau a addysgir pan nad oeddent yn bresennol
- Honni mai eich gwaith chi yw gwaith rhywun arall
- Rhannu manylion cwestiynau neu dasgau mewn arholiadau yr ydych chi wedi'u sefyll gyda chyd fyfyrwyr neu eraill
- Ffugio enw goruchwylydd neu ffugio adborth mewn asesiadau, coflyfrau neu bortffolios

Anonstrwydd neu dwyll, gan gynnwys anonestrwydd y tu allan i'r rôl proffesiynol

- Ffugio ymchwil
- Cyflawni gweithred o dwyll ariannol
- Creu CVs neu ddogfennau eraill twyllodrus
- Camgyfleu cymwysterau
- Ffugio llofnodion ar ddogfennau megis portffolios
- Methu datgelu problemau camymddygiad perthnasol neu gyflyrau iechyd i'ch ysgol feddygol neu'ch prifysgol
- Celu neu gamgyfleu cyflyrau iechyd mewn ffordd fwriadol (er enghraifft, feirysau a gludir yn y gwaed)

Ymddygiad ymosodol, treisgar neu fygythiol

- Ymosod
- Trais corfforol
- Bwlio
- Aflonyddwch
- Stelcio
- Trolio neu fwlio ar-lein

Unrhyw rybudd neu gollfarn

- Meddu ar, delio neu gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon
- Dwyn
- Trais corfforol
- Osgoi talu taliadau
- Twyll ariannol
- Pornograffi plant
- Cam-drin plant neu unrhyw gamdriniaeth arall
- Troseddau rhywiol

Pryderon iechyd a rheolaeth neu ddirnadaeth o'r pryderon hyn

- Methu ceisio triniaeth neu gyngor priodol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol annibynnol ac sy'n meddu ar gymhwyster priodol
- Methu dilyn y gofyniad i ddweud wrth eich ysgol feddygol neu'ch prifysgol os oes gennych chi gyflwr iechyd difrifol
- Methu dilyn cyngor meddygol neu gynlluniau gofal, neu gydymffurfio â threfniadau ar gyfer gwaith monitro ac adolygiadau
- Methu cydymffurfio ag addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion
- Methu cydnabod cyfyngiadau a galluoedd neu ddiffyg dirnadaeth ynghylch pryderon iechyd
- Methu cael eu himiwneiddio rhag clefydau trosglwyddadwy difrifol cyffredin (oni bai y caiff hynny ei wrthgymeradwyo)

Atodiad: Proffesiynoldeb a phrosesau addasrwydd i wneud gwaith meddygol mewn ysgolion meddygol a phrifysgolion

Pryderon iechyd a dirnadaeth neu reolaeth o'r pryderon hyn

- Methu ceisio triniaeth briodol neu gyngor gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol annibynnol ac sy'n meddu ar gymhwyster priodol
- Methu dilyn y gofyniad i ddweud wrth eich ysgol feddygol neu'ch prifysgol os oes gennych chi gyflwr iechyd difrifol
- Gwrthod dilyn cyngor meddygol neu gynlluniau gofal, neu gydymffurfio gyda threfniadau er mwyn monitro ac adolygiadau
- Methu cydymffurfio gydag addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion
- Methu cydnabod cyfyngiadau a galluoedd neu ddiffyg dirnadaeth ynghylch cyflyrau iechyd
- Methu cael eich imiwneiddio yn erbyn clefydau trosglwyddadwy difrifol cyffredin (oni bai y cynghorir yn erbyn hyn)

Gallwch ddarllen [Ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i wneud gwaith meddygol: arweiniad i ysgolion meddygol a'u myfyrwyr](#).*

* Mae modd i chi ddarllen *Ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i wneud gwaith meddygol: arweiniad i ysgolion meddygol a'u myfyrwyr* trwy droi at www.gmc-uk.org/studentftp.

-
- 1 Mae'r atodiad hwn yn nodi gwybodaeth sylfaenol am brosesau addasrwydd i wneud gwaith meddygol mewn ysgolion meddygol a phrifysgolion. Mae modd i chi weld mwy o wybodaeth yn ein harweiniad, [*Ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i wneud gwaith meddygol: arweiniad i ysgolion meddygol a'u myfyrwyr*](#).*
 - 2 Mae gan ysgolion meddygol ddyletswydd i raddio'r myfyrwyr hynny sy'n addas i wneud gwaith meddygol yn unig gyda chymhwyster meddygol sylfaenol. Pennir y gofyniad hwn gan CMC, sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd yr holl addysg a hyfforddiant meddygol yn y DU. Oherwydd y gofyniad hwn, bydd gan eich ysgol feddygol ffyrdd o fonitro ymddygiad myfyrwyr a bydd ganddynt broses addasrwydd i wneud gwaith meddygol neu broffesiynoldeb er mwyn delio â myfyrwyr sy'n dangos ymddygiad amhroffesiynol.
 - 3 Rydym yn darparu arweiniad ar lefel uchel i ysgolion meddygol ynghylch rhedeg y prosesau hyn, ond mae'r prosesau eu hunain yn amrywio o ysgol feddygol i ysgol feddygol. Mae hyn oherwydd bod pob ysgol feddygol yn unigryw o ran ei maint a'i strwythur ac oherwydd ffactorau eraill, megis ei pherthynas â'i rhiant-brifysgol. Fodd bynnag, rydym wedi pennu fframwaith bras i ysgolion ei ddilyn.

* Mae modd i chi ddarllen *Ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i wneud gwaith meddygol: arweiniad i ysgolion meddygol a'u myfyrwyr* trwy droi at www.gmc-uk.org/studentftp.

Monitro mân bryderon

- 4 Mân bryderon yw pethau fel colli sesiynau addysgu, methu cyflwyno gwaith mewn pryd neu fethu ymateb i gyfathrebu gan yr ysgol feddygol. Bydd ysgolion meddygol yn monitro ymddygiad eu myfyrwyr mewn perthynas â'r mathau hyn o bryderon. Efallai na fydd un achos o'r math hwn o ymddygiad yn ddigon i ysgogi proses addasrwydd i wneud gwaith meddygol – ond os bydd myfyriwr yn dangos y mathau hyn o ymddygiad yn barhaus, bydd yr ysgol feddygol yn dymuno ystyried y bryderon yn fanylach.
- 5 Mae gan rai ysgolion meddygol bwyllgor i ystyried achosion o'r math hwn o ymddygiad, ac mewn ysgolion eraill, efallai y bydd unigolyn yn gyfrifol am y broses hon. Mae hyn yn gyfle i drafod gyda'r myfyriwr pam eu bod wedi gweithredu yn y fath ffordd, gan nodi unrhyw faterion sylfaenol sy'n dynodi'r ffaith bod angen cymorth ychwanegol ar y myfyriwr, megis mater iechyd.
- 6 Yn ogystal, bydd modd i'r pwyllgorau hyn gynghori myfyrwyr am y camau y bydd angen iddynt eu cymryd er mwyn osgoi mynd i drafferthion pellach mewn perthynas â'u perfformiad proffesiynol, ac maent yn gallu cynorthwyo myfyrwyr er mwyn eu helpu i wneud hyn.
- 7 Weithiau, gall y pwyllgorau hyn roi rhybudd i ddweud bod yn rhaid i fyfyriwr wella'u hymddygiad neu wynebu camau pellach.

Ymchwiliad ffurfiol ynghylch addasrwydd i wneud gwaith meddygol

- 8 Os bydd myfyriwr yn gwneud rhywbeth amhroffesiynol mwy difrifol neu os byddant yn dangos mân ymddygiad amhroffesiynol yn barhaus, gan gynnwys mewn perthynas â rheoli eu cyflwr iechyd, gallai hyn olygu bod eu haddasrwydd i wneud gwaith meddygol yn cael ei amharu. Bydd eu hysgol feddygol yn cychwyn proses i ymchwilio i'r ymddygiad hwn. Efallai y bydd yr ymchwiliad yn dod i'r casgliad nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach, bod angen rhoi rhybudd neu bod angen eu cyfeirio i bwyllgor neu banel addasrwydd i wneud gwaith meddygol.

Beth yw panel neu bwyllgor addasrwydd i wneud gwaith meddygol?

- 9 Mae panel neu bwyllgor addasrwydd i wneud gwaith meddygol yn grŵp diduedd o unigolion sy'n ystyried a yw myfyriwr yn addas i wneud gwaith meddygol at ddibenion parhau â'u hastudiaethau neu at ddibenion graddio. Mae ysgolion meddygol yn paratoi tystiolaeth er mwyn i'r panel neu'r pwyllgor ei ystyried – mae modd i fyfyrwyr gyflwyno unrhyw dystiolaeth sy'n berthnasol yn eu barn nhw hefyd.

- 10** Yna, bydd yr ysgol feddygol a'r myfyriwr yn cyflwyno'u tystiolaeth i'r panel neu'r pwyllgor, a fydd yn gwneud penderfyniad ar ei sail. Bydd panel neu bwyllgor yn ceisio darganfod ffeithiau'r achos – byddant yn gwneud eu penderfyniad ar sail cydbwysedd rhwng y tebygolrwydd bod y digwyddiad honedig wedi digwydd. Yna, byddant yn penderfynu a yw addasrwydd y myfyriwr i wneud gwaith meddygol yn cael ei amharu, a byddant yn gwneud penderfyniad ynghylch pa sancsiwn, os o gwbl, y dylid ei roi.
- 11** Bydd y panel neu'r pwyllgor yn nodi ei benderfyniad yn ysgrifenedig, gan esbonio'r rhesymau dros ei wneud. Bydd y llythyr penderfyniad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r myfyriwr hefyd ynghylch sut y mae modd iddynt apelio yn erbyn penderfyniad y panel neu'r pwyllgor.

Pa gymorth y byddaf yn ei gael yn ystod ymchwiliad addasrwydd i wneud gwaith meddygol?

- 12** Bydd eich ysgol feddygol a'ch prifysgol yn eich cynorthwyo yn ystod ymchwiliadau a gwrandawiadau addasrwydd i wneud gwaith meddygol. Mae modd i chi gysylltu â sefydliadau allanol hefyd megis BMA neu sefydliad amddiffyn meddygol, sy'n gallu cynnig cymorth ac arweiniad hefyd.
- 13** Mae modd i chi weld arweiniad pellach am weithdrefnau addasrwydd myfyrwyr i wneud gwaith meddygol yn ein harweiniad Ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i wneud gwaith meddygol: arweiniad i ysgolion meddygol a'u myfyrwyr.

Rhai o'r ffactorau a ystyrir gan bwyllgorau a phaneli addasrwydd i wneud gwaith meddygol

Patrymau ymddygiad

Os byddwch yn parhau i ymddwyn mewn ffordd amhroffesiynol, gall hyn awgrymu nad ydych yn dysgu o'ch camgymeriadau ac mae'n gallu bod yn dystiolaeth o agwedd amhroffesiynol. Gallai hyn gael ei ystyried hefyd mewn perthynas â'ch iechyd – er enghraifft, os byddwch yn dangos patrwm o beidio gofyn am help gyda chyflwr iechyd.

Dirnadaeth

Mae hyn yn golygu eich bod yn deall bod yr hyn a wnaethoch yn amhroffesiynol a pham ei fod yn amhroffesiynol. Mae penderfynu a oes gennych chi ddirnadaeth neu beidio yn un o'r pethau allweddol y bydd paneli a phwyllgorau yn eu hystyried. Gall pethau fel ymddiheuro am eich ymddygiad a bod yn agored ac yn onest am gamgymeriadau a wnaethpwyd yn y gorffennol i drydydd partïon, helpu i ddangos dirnadaeth.

Adfer

Dyma'r broses lle y byddwch yn cymryd camau i ddangos eich bod wedi cywiro'ch ymddygiad a'ch bod yn addas i wneud gwaith meddygol nawr. Gallai rhai enghreifftiau o weithgarwch adfer gynnwys:

- ysgrifennu traethodau myfyriol am ymddygiad amhroffesiynol yn y gorffennol
- ymgysylltu â chymorth a ddarparir gan eich ysgol feddygol

- gallu dangos cyfnod sylweddol o ymddygiad da
- ymgysylltu â gweithgareddau megis sgrinio ar hap am alcohol a chyffuriau, y mae modd ei ddefnyddio er mwyn dangos newid mewn ymddygiad.

Ffactorau lliniarol

Dyma'r pethau y gallent helpu i esbonio'ch rhesymau dros ymddygiad gwael. Er enghraifft, efallai y byddwch wedi cael profedigaeth ac fe allai hyn fod wedi effeithio ar eich ymddygiad. Dylech nodi, er y gallai ffactorau lliniarol esbonio'ch ymddygiad, na fyddent yn lleihau ei effaith neu ei ddifrifoldeb o reidrwydd.

Ffactorau gwaethgol

Pethau yw'r rhain sy'n gwneud trosedd yn waeth. Er enghraifft, os byddwch yn ailadrodd ymddygiad y rhoddwyd rhybudd i chi amdano yn flaenorol.

Eich blwyddyn astudio

Disgwylir i chi aeddfedu yn ystod eich cyfnod mewn ysgol feddygol, a dysgu am broffesiynoldeb wrth i chi symud trwy'ch cwrs. Felly, gallai rhai enghreifftiau o ymddygiad gael eu hystyried fel mân gamymddygiad os y'i gwelir pan fyddwch yn fyfyrwr newydd, ond byddai'n cael ei ystyried yn fwy difrifol pe byddech ar fin graddio. Yn ogystal, os ydych chi'n agosáu at raddio, efallai na fydd gennych chi amser i ddangos eich bod wedi adfer ac fe allai hyn ei gwneud yn anodd i'ch ysgol feddygol ganiatáu i chi raddio.

Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

E: gmc@gmc-uk.org

G: www.gmc-uk.org

Ff: 0161 923 6602

General Medical Council
3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **dylech ddeialu 18001**, yna
0161 923 6602 er mwyn defnyddio'r
gwasanaeth Cyfleu Testun

Ymunwch â'r sgwrs

 [@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)

 facebook.com/gmcuk

 linkd.in/gmcuk

 youtube.com/gmcuktv

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a
Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

E: admin@medschools.ac.uk

G: www.medschools.ac.uk

Ff: 020 7419 5430

Medical Schools Council
Woburn House, 20 Tavistock Square,
London WC1H 9HD

Ymunwch â'r sgwrs

 [@ukmedschools](https://twitter.com/ukmedschools)

Mae CYM yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i
gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 8817383.
Rhif elusen gofrestredig 1155370.

**I ofyn am fersiwn Saesneg o'r cyhoeddiad hwn,
neu fersiwn mewn ffurf neu iaith arall, ffoniwch ni ar
0161 923 6602 neu anfonwch e-bost atom,
publications@gmc-uk.org.**

Cyhoeddwyd Mai 2016, diweddarwyd Mehefin 2022

© 2022 Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Ysgolion Meddygo

Mae modd atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr
amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod
hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

ISBN: 978-0-901458-90-2

Cod: GMC/AGMPGMS-W/0622